

No.

PWYLLGOR PENODI UWCH REOLWYR

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr, 2022.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd L. Burnett (Cadeirydd); Cynghorydd B.E. Brooks (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G.D.D. Carroll, P. Drake, S.M. Hanks and Dr. I.J. Johnson.

514 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Tachwedd, 2022 fel cofnod cywir.

515 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

516 TREFNIADAU RECRIWTIO A DETHOL AR GYFER PENNAETH GWASANAETHAU OEDOLION/CYNGHRAIR Y FRO (CGC) –

Roedd yr adroddiad yn manylu ar yr amserlen cyfweiliad terfynol ar gyfer y swydd uchod gan gynghori bod y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn ymgynghoriad â chydweithwyr eraill, gan gynnwys cynrychiolydd o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIP), wedi nodi dau ymgeisydd ar gyfer cyfweiliad. Cafodd manylion pob ymgeisydd eu cynnwys yn adroddiad Rhan II ynghyd â'u ffurflenni cais.

PENDERFYNWYD -

(1) BOD yr adroddiad yn cael ei nodi a'r cyfweiliadau terfynol yn cael eu cynnal dan Ran II o'r agenda.

(2) DIRPRWYO yn dilyn manylion penodiad gweddilliol, fel y bo'n briodol, i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr a'r Arweinydd, pe bai'r Aelodau'n cadarnhau ymgeisydd addas.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Sicrhau bod y broses o benodi i'r swyddi'n cael ei chynnal yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor.

(2) Sicrhau bod holl swyddogaethau'r Cyngor yn cael eu bodloni yn y maes hwn.

No.

517 TREFNIADAU RECRIWTIO A DETHOL AR GYFER PENNAETH RHEOLI
ADNODDAU A DIOGELU (CGC) –

Roedd yr adroddiad yn manylu ar amserlen y cyfweiliad terfynol ar gyfer y swydd uchod gan gynghori hynny yn dilyn proses asesu, bod y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn ymgynghoriad â chydweithwyr eraill wedi nodi dau ymgeisydd ar gyfer cyfweiliad. Fodd bynnag, dywedodd y Cyfarwyddwr ei fod wedi cael gwybod yn ddiweddar bod un o'r ymgeiswyr wedi tynnu'n ôl ers hynny. Cafodd manylion yr ymgeisydd ar gyfer cyfweiliad eu cynnwys felly yn adroddiad Rhan II ynghyd â'i ffurflen cais.

PENDERFYNWYD -

- (1) BOD yr adroddiad yn cael ei nodi a'r cyfweiliadau terfynol yn cael eu cynnal dan Ran II o'r agenda.
- (2) DIRPRWYO yn dilyn manylion penodiad gweddilliol, fel y bo'n briodol, i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr a'r Arweinydd, pe bai'r Aelodau'n cadarnhau ymgeisydd addas.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Sicrhau bod y broses o benodi i'r swyddi'n cael ei chynnal yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor.
- (2) Sicrhau bod holl swyddogaethau'r Cyngor yn cael eu bodloni yn y maes hwn.

518 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD – O dan Adran 100A (4) o'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol ar y sail eu bod yn cynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl pob tebyg fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yr Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

519 TREFNIADAU RECRIWTIO A DETHOL AR GYFER PENNAETH
GWASANAETHAU OEDOLION/CYNGHRAIR Y FRO (CGC) (GWYBODAETH
EITHRIEDIG – PARAGRAFF 15) –

Ar ôl ystyried yr adroddiad roedd dau ymgeisydd wedi cyrraedd rhestr fer ar gyfer cyfweiliad a chyda'r swydd yn swydd ar y cyd rhwng y Bwrdd Iechyd a Chyngor Bro Morgannwg roedd Cyfarwyddwr Gweithredol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac Is-gadeirydd y BIP hefyd yn bresennol. Yn dilyn y cyfweiliadau gan y Pwyllgor,

No.

PENDERFYNWYD -

- (1) BOD J.B. yn cael ei benodi i swydd Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Chynghrair y Fro.
- (2) BOD manylion penodiad gweddilliol, fel y bo'n briodol, yn cael eu dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Yn dilyn cyfweiliadau'r ddau ymgeisydd.
- (2) Sicrhau bod holl swyddogaethau'r Cyngor yn cael eu bodloni yn y maes hwn.

520 TREFNIADAU RECRIWTIO A DETHOL AR GYFER PENNAETH RHEOLI ADNODDAU A DIOGELU (CGC) (GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFF 15) –

Ar ôl ystyried yr adroddiad ac ar ôl cael gwybod bod un o'r ddau ymgeisydd oedd ar restr fer ar gyfer cyfweiliad wedi tynnu'n ôl yn ddiweddar, yn dilyn cyfweiliad yr ymgeisydd oedd ar ôl gan y Pwyllgor,

PENDERFYNWYD -

- (1) BOD I.M. yn cael ei benodi i swydd Pennaeth Rheoli Adnoddau a Diogelu.
- (2) BOD manylion penodiad gweddilliol, fel y bo'n briodol, yn cael eu dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Yn dilyn cyfweiliad yr ymgeisydd.
- (2) Sicrhau bod holl swyddogaethau'r Cyngor yn cael eu bodloni yn y maes hwn.